

0: Dyma grynodedb newyddion o Wlad Belg ar sail erthyglau o fersiynau Ffrangeg ac Iseldireg papur newydd *Metro* yn ystod y tridiau rhwng y bedwaredd ar ddeg a'r unfed ar bymtheg o Fai dwy fil un pedwar. Fel yng Nghymru, does yr un papur newydd sy'n cael ei ddarllen gan ran helaeth o'r boblogaeth ym mhob rhan o'r wlad. Gan nad oes sianel deledu genedlaethol chwaith, mae pobl yn tueddu i ddilyn newyddion sydd ychydig yn wahanol yn dibynnu ar yr iaith neu'r cyfrwng.

00:33 Jean-Luc Dehaene'n marw

Un ffigwr cyfarwydd i bob ran o gymdeithas, er hynny, sydd ar un o'r tudalennau blaen: Jean-Luc Dehaene, fu farw yn ystod y penwythnos yn dilyn cyfnod yn ddiodef o gancr. Dyn mawr ei gorff yn ogystal â'i ddylanwad oedd y gwleidydd 'ma. Fo oedd y prif weinidog am y rhan fwyaf o'r nawdegau, amser cythryblus yn hanes y wlad, a llwyddodd i ddatrys nifer o broblemau rhwng carfannau gwahanol Gwlad Belg. "Plymwr", "tarw dur" a "dyn clirio ffrwydron" oedd rhai o'r ffyrdd y cafodd ei ddisgrifio. Roedd Dehaene'n hynod bwysig adeg geni'r wladwriaeth ffederal, pan gafodd y system wleidyddol ei diwygio gan arwain i etholiadau unionsyth i'r llu o seneddau gwahanol sydd yma. Creadigaeth wleidyddol gymhleth iawn yw Gwlad Belg heddiw, ac mae'r grym yn cael ei rannu ar dair lefel sylfaenol. Yn gynta', dyna ichi'r wladwriaeth ffederal, sy'n rheoli pethau fel polisi amddiffyn neu'r heddlu, wedyn y tri rhanbarth daearyddol, sef Fflandrys, Brwsel a Walonia, sy'n gyfrifol am feysydd fel swyddi a thrafnidiaeth, ac yna'r dair gymuned ieithyddol, sef yr un Fflemeg, yr un Ffrangeg a'r un Almaeneg ei hiaith, a'r rheiny'n gyfrifol am bethau fel addysg a diwylliant. Saith uned wleidyddol i gyd, felly, ac yn fras mae gan bob un ei wleidyddion...

02:05 Etholiadau, etholiadau, etholiadau

Dehaene, felly, sy'n rhannol gyfrifol am y ffaith fod pobl yng Ngwlad Belg yn gorfod pleidleisio mewn cynifer o etholiadau ar y pumed ar hugain o Fai eleni. "Mam pob etholiad", ys dywed y cyfryngau lleol, a dim rhyfedd, efo etholiadau ffederal, etholiadau rhanbarth, etholiadau cymunedol, a hynny ar ben yr etholiadau Ewropeaidd... Ac yn wir y maent yn gorfod pleidleisio... Wel, i fod yn fanwl gywir, mae'r gyfraith ond yn mynnu eu bod yn *mynd i orsaf pleidleisio*. Ta waeth, dyna hefyd y rheswm pennaf fod canran mor uchel yn mynd i fwrw pleidlais - naw deg y cant yn yr etholiadau Ewropeaidd yn nwy fil a naw, o gymharu â llai na thri deg pump y cant ym Mhrydain.

Oherwydd yr holl etholiadau, mae digonedd o drafod a dadansoddi am faterion gwleidyddol yn y papurau, a nifer o gyfweiliadau a dyfyniadau, er enghraifft y Gweinidog Cyllid ffederal yn dweud yn blwmp ac yn blaen nad oes "neb eisiau bod yn Brif Weinidog yn y wlad 'ma, gan fod gymaint o bwysau".

Un o'r rhesymau am y problemau sy'n mynd law yn llaw â'r swydd yma yw bod yn rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y cymunedau iaith gwahanol. Mae hyn efallai'n arbennig o bwysig o gofio nad yw'r hanner yr etholwyr wedi pleidleisio drosoch chi, neu hyd yn oed wedi cael y cyfle - dim ond ym Mrwsel mae pleidiau Iseldireg a Ffrangeg fel ei gilydd yn sefyll. A hynny tra bod y llywodraeth ffederal yn gorfod

cynnwys elfennau o'r ddwy ochr o'r ffin ieithyddol, ond stori arall (a hirhoedlog iawn, fel arfer) yw sut mae ffurfio honno...

03:44 Gwysion etholiadol yn creu stŵr eto

Beth bynnag am hynny, mae cwestiynau iaith yn codi bob adeg etholiad, yn arbennig yn Fflandrys, rhanbarth sy'n uniaith Iseldireg yn swyddogol, ond lle mae rhai cynghorau lleol lle mae'r lleiafrif Ffrangeg yn meddu ar yr hyn a elwir yn "gyfleusterau ieithyddol" - yr hawl i dderbyn gwybodaeth yn Ffrangeg o'r cyngor ac yn y blaen. Mae rhai meiri, felly, wedi anfon y llythyrau'n galw pobl i'r gorsafoedd pleidleisio yn Ffrangeg i'r rhai sy wedi cofrestru fel siaradwyr Ffrangeg - rhywbeth sy'n gallu ymddangos yn gwbl resymol, ond sy'n dân ar groen gweinyddiaeth Fflandrys, gan fod cylchlythyr swyddogol yn gorfodi'r cynghorau i anfon y papurau yn Iseldireg yn gyntaf at bawb, a'r rhai sydd am dderbyn fersiwn Ffrangeg yn gallu hawlio honno wedyn. Oherwydd hyn, mae nifer o feiri wedi cael eu hatal yn y gorffennol rhag cael eu henwi'n swyddogol i'w swyddi. Ar hyn o bryd, mae llys newydd ddatgan fod anfon llythyrau Ffrangeg yn bosibl wedi'r cwbl, ond mae awdurdodau Fflandrys yn apelio a neb yn sicr beth yw'r sefyllfa mewn gwirionedd.

04:50 Sŵn awyrennau'n ennyn llid

Ond nid jyst materion iaith sy'n gallu creu tensiwn rhwng y cymunedau iaith, ond hefyd materion sy'n edrych yn gwbl dechnegol o'r tu allan, fel lle mae peilot yn cael hedfan neu beidio. Tra bod y gwleidyddion yng Nghaerdydd yn poeni nad oes digon o awyrennau'n hedfan yno, ym Mrwsel maen nhw'n poeni fod 'na ormod. Yn Fflandrys, nid nepell o'r ffin â rhanbarth Brwsel, y mae maes awyr Brwsel, Zaventem ['za:vəntəm], ac mae Brwsel yn cwyno ers blynyddoedd fod y traffig uwchben y ddinas yn creu mwy o sŵn nag yr hyn sy'n cael ei ganiatáu gan reolau Brwsel. Ers mis Chwefror, fodd bynnag, mae'r dadlau wedi mynd yn ffyrnicach fyth, ar ôl i'r awdurdod atebol newid y llwybrau hedfan gan anfon rhagor o draffig awyr uwch y brifddinas boblog a lleihau'r pwysau ar yr ardaloedd oddi amgylch, yn Fflandrys. Er bod hyn yn benderfyniad ar sail cytundeb o ddwy fil a deg, daeth fel sioc i lawer, ac mae mudiad protest mawr ar droed, a rhai'n proffwydo fod hyn yn mynd i achosi niwed yn yr etholiadau i blaid yr Ysgrifennydd Gwladol atebol, Wathelet, a roddodd ei enw i'r cynllun newydd.

Ond wedi dweud hyn i gyd am densiwn a phrotestiadau, ychydig iawn o wrthdaro sydd rhwng gwahanol rannau'r wlad, a'r rhan fwya'n byw mewn byd lle nad yw'r iaith arall yn chwarae unrhyw rôl o gwbl. Diffyg diddordeb yn hytrach na chasineb sy'n nodweddiadol o'r berthynas rhwng Fflandrys a Walonia.

06:28 Brasil, dyma ni'n dod

Er hynny, erys un peth, ar wahân i'r teulu brenhinol, sy'n ennyn diddordeb yn y de fel yn y gogledd ac yn uno Gwlad Belg yn fwy na dim, a'r tîm pêl-droed yw hwnnw. Ar ddiwrnod cyffredin, dim ond seiclo (yn arbennig yn y gogledd) sy wir yn gallu cystadlu â pêl-droed am ofod yn adran chwaraeon y papurau newydd (er bod ambell i gyfeiriad at gampau fel mabolgampau neu hoci hefyd). Rŵan, gwta fis cyn dechrau Cwpan y Byd ym Mrasil, mae'r papurau'n orlawn o erthyglau am bêl-droed. Eleni,

mae'r diddordeb yn fwy nac arfer hefyd oherwydd bod gan Wlad Belg gyfle go iawn i wneud yn dda, ar ôl blynyddoedd o anfon timau didda, diddrwg allan i'r cae. Bydd nifer o'r chwaraewyr yn y tîm cenedlaethol yn wynebaw cyfarwydd i'r rhai sy'n dilyn hynt a helynt Uwch-gynghrair Lloegr, fel Eden Hazard, Chwaraewr y Flwyddyn yn Chelsea, Thomas Vermaelen, un o enillwyr Cwpan yr FA yn Arsenal, neu Vincent Kompany, un o enillwyr y Gynghrair yn Manchester City.

Brasil rownd y gornel, felly, ac oherwydd hynny atodiad mawr am y Cwpan, y timau a chant a mil o bethau eraill: sut i wneud sŵn yn y stadiwm (trwmped *la diabolica* [la diabolika] mae cefnogwyr Belgaid ei angen eleni, mae'n ymddangos), beth i fwyta (gan gynnwys ryseitiau i wneud popeth o goctel *caipirinha* hyd at stiw *feijoada*, sut i wisgo (tips ar gyfer ewinedd yn lliwiau Gwlad Belg), ble i fynd ym Mrasil neu, i'r rhai sy'n aros gartre, ble i wyllo'r gemau yng Ngwlad Belg.

08:10 Y brodyr Dardenne yn Cannes

Ond wrth gwrs nid pêl-droed yn unig sy'n cael ei dangos ar y sgrin, a chyn yr Ŵyl Ffilmiau Ryngwladol yn Cannes, mae cyfweliad mawr efo'r brodyr Dardenne, Belgiaid sy'n enwau mawr yn y byd sinema ac sydd rŵan yn gobeithio cael trydedd balmwydden aur am *Deux jours, une nuit* (Two Days, One Night) efo Marion Cotillard.

08:34 Y newyddion ga'dd eu gwrthod

A dim ond cipolwg yw hyn i gyd, wrth gwrs. Mae yna hefyd sôn am fewnfudo anghyfreithlon, prisiau ynni, talu â ffôn clyfar, darganfyddiad "genyn gohirio", diwrnod cenedlaethol y parciau, dwy filiwn o Felgiaid ar LinkedIn, pobl yn adran "Kiss and Ride" y papur yn chwilio am y ferch hardd 'na o'r bws neu'r bachgen golygus 'na o'r trê, dwy long ddrylliedig ym Môr y Gogledd bellach yn dreftadaeth ddiwylliannol, dyn yn y ddalfa wedi iddo recriwtio pobl i'r rhyfel yn Syria, cynllun gwrth-sombiaid honedig y Pentagon, ac wrth reswm o ystyried fod hon yn wlad sy'n llawn siocled a melysion eraill, pen-blwydd Nutella'n hanner cant oed.